HM Revenue & Customs

# Awdurdodi ymgynghorydd treth ar gyfer materion Tâl Treth Budd-dal Plant Incwm Uchel

Dim ond y sawl a hawliodd y Budd-dal Plant ddylai lenwi'r ffurflen hon.

Cyn llenwi'r ffurflen hon, ewch i www.gov.uk/child-benefit-tax-charge a darllen yr wybodaeth am y Tâl Treth Budd-dal Plant Incwm Uchel.

Gallwch awdurdodi ymgynghorydd treth (er enghraifft, cyfrifydd) i weithredu ar eich rhan ynghylch materion sy'n ymwneud â'r Tâl Treth Budd-dal Plant Incwm Uchel. Ar ôl ei awdurdodi, bydd eich ymgynghorydd treth yn gallu:

- holi ynghylch unrhyw daliadau Budd-dal Plant yr ydych wedi'u cael
- rhoi gwybod i'r Swyddfa Budd-dal Plant am eich penderfyniad i atal eich taliadau Budd-dal Plant neu i'w hailddechrau
- trafod, ar eich rhan, materion sy'n ymwneud â'ch penderfyniad gyda'r Swyddfa Budd-dal Plant

Rhaid i chi roi gwybod i'r Swyddfa Budd-dal Plant ar unwaith os ydych am dynnu'r ymgynghorydd treth yr ydych wedi ei enwebu, neu os ydych am ei newid, a chanslo'r awdurdod hwn.

Eich cyfrifoldeb chi o hyd yw rhoi gwybod ar unwaith i'r Swyddfa Budd-dal Plant am newidiadau a allai effeithio ar eich hawl i Fudd-dal Plant. Bydd y Swyddfa Budd-dal Plant yn dal i anfon gohebiaeth atoch chi, y person a hawliodd y Budd-dal Plant, nid eich ymgynghorydd treth. Fodd bynnag, os llenwch y ffurflen awdurdodi hon, atebwn ymholiadau gan eich ymgynghorydd treth ar bapur neu dros y ffôn ynghylch y Tâl Treth Budd-dal Plant Incwm Uchel.

## Eich manylion

Atebwch y cwestiynau er mwyn cadarnhau mai chi yw'r person a hawliodd y Budd-dal Plant.

**Cyfenw neu enw teuluol**

**Enwau cyntaf**

**Dyddiad geni** DD MM BBBB

**Rhif ffôn yn ystod y dydd** (gan gynnwys y cod deialu)

**Cyfeiriad**

Cyfeiriad

Cod post

**Rhif Yswiriant Gwladol**

## Manylion y plentyn

Rhowch fanylion un o'r plant y gwnaethoch hawlio Budd-dal Plant ar ei gyfer/chyfer.

**Cyfenw neu enw teuluol**

**Enwau cyntaf**

**Dyddiad geni** DD MM BBBB

## Ynglŷn â'ch ymgynghorydd treth

Llenwch fanylion y busnes neu'r person rydych am ei awdurdodi i weithredu ar eich rhan.

**Enw'r busnes neu enw llawn**

**Rhif ffôn yn ystod y dydd** (gan gynnwys y cod deialu)

**Cyfeiriad**

Cyfeiriad

Cod post

**Cyfeiriad e-bost**

**Cyfeirnod y cleient** (os yn gymwys)

## Datganiad

Rwy'n cadarnhau mai fi yw'r person sydd wedi bod yn hawlio'r Budd-dal Plant ac sydd â'r hawl i'w gael.

Rwyf yn awdurdodi'r ymgynghorydd treth a enwir ar y ffurflen hon i weithredu ar fy rhan ynghylch y Tâl Treth Budd-dal Plant Incwm Uchel ac er mwyn i'r Swyddfa Budd-dal Plant ddatgelu gwybodaeth iddo ynghylch y materion hyn.

Rwyf yn datgan bod yr wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn.

**Llofnod**

**Dyddiad** DD MM BBBB

**Enw**

### Yr hyn i'w wneud nawr

Anfonwch y ffurflen wedi'i llenwi i:

Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM
HMRC
BX9 1ST